



Y RHWYDWAITH YMCHWIL  
IECHYD MEWN YSGOLION

SCHOOL HEALTH  
RESEARCH NETWORK

# Rôl staff cymorth ysgol mewn iechyd a lles myfyrwyr

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion, Ebrill 2019

Mae gan yr ysgol uwchradd gyfartalog yng Nghymru 125 o staff addysgu a 35 o staff cymorth, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, technegwyr labordai a TGCh, staff cymorth bugeiliol, staff cymorth anghenion arbennig, a chynorthwywyr ieithoedd tramor. Sut mae staff addysg a chymorth yn gweithio gyda'i gilydd i gynorthwyo iechyd a lles myfyrwyr, a sut caiff eu cymorth ei ganfod gan fyfyrwyr, rhieni a staff ysgol?

## Yr hyn rydym ni eisoes yn ei wybod...

Mae amgylchedd ysgol cadarnhaol yn bwysig ar gyfer lles myfyrwyr. Mae'r 'amgylchedd' yn cynnwys ethos ac amgylchedd cymdeithasol yr ysgol, ac mae perthnasoedd myfyrwyr-athrawon yn rhan bwysig o hyn.

Fodd bynnag, mae athrawon yn dueddol o gael llwythi gwaith mawr, sy'n arwain at flaenoriaethu gwaith y canfyddir ei fod yn fusnes craidd yr ysgol, a dadflaenoriaethu gwaith yr ystyrir yn fwy ymylol, neu sy'n cystadlu â hwn.

Mae llawer o'r ymchwil i rôl 'staff ysgol' o ran lles myfyrwyr yn canolbwyntio ar athrawon yn unig, ac wedi anwybyddu rôl staff cymorth.



## Yr hyn a wnaethom...

- Dewisiwyd pedair ysgol amrywiol yn ne Cymru fel astudiaethau achos. Roeddent yn amrywio o ran maint, lleoliad (trefol / gwledig), amgylchiadau economaidd eu myfyrwyr, a'u lefel cyrhaeddiad yn y Cynllun Ysgolion Iach.
- Cynhaliwyd cyfweiliadau unigol gyda'r arweinydd lles ym mhob ysgol, a gydag 13 o staff eraill yn cynrychioli amrywiaeth o rolau, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr addysgu, a rheolwyr cymorth ymddygiad.
- Fe wnaeth 30 o fyfyrwyr ar draws blynyddoedd 7 i 12 gymryd rhan mewn cyfweiliadau pâr.
- Cynhaliwyd cyfweiliadau unigol hefyd gydag 11 o rieni plant yn yr ysgolion.
- Dadansoddwyd data'r cyfweiliadau, ac adolygwyd a diwygiwyd y themâu a ddaeth i'r amlwg hyd nes eu bod nhw'n adlewyrchu'r set data cyfan yn gywir.

## Yn gryno

- Mae myfyrwyr yn ystyried bod athrawon a staff cymorth yn ffynonellau o gymorth ar gyfer eu lles, ond maent yn gwerthfawrogi bod ganddynt ddewis o ran pwy y gallant fynd ato/ati i gael help.
- Mae strwythurau cymorth lles yn amrywio rhwng ysgolion, ond mae tîm o athrawon a staff cymorth yn fanteisiol oherwydd y gall staff cymorth ymroddi amser i feithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd â myfyrwyr.
- Mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi manau lles pwrpasol yn yr ysgol. Maent yn cyfleu ymdeimlad bod yr ysgol yn poeni am les myfyrwyr ac yn helpu myfyrwyr i gyrchu cymorth os, a phryd, y maent ei angen.



@SHRNWales



SHRN@cardiff.ac.uk



SHRN.org.uk

## Yr hyn a ganfuom...

### Strwythurau cymorth lles

- Roedd strwythur a chyfansoddiad timau lles myfyrwyr yn amrywio'n sylweddol.
- Mewn un ysgol, ystyriwyd y Pennaeth Cynorthwyol fel yr unig arweinydd ar gyfer iechyd a lles, ond mewn rhai eraill, roedd tîm o staff addysgu a chymorth â rolau lles penodol.

### Rolau rhyngweithiol staff addysgu a chymorth

- Cysylltodd myfyrwyr â staff addysgu a chymorth am broblemau lles, gan werthfawrogi'r opsiwn i gysylltu â phwy bynnag yr oeddent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus â nhw.

*"Mae'n dda iawn achos dw i wedi defnyddio y swyddfa lles ac mae nhw'n defnyddiol a chefnogol ac mae nhw ddim yn adael y fater i fynd nes ei fod wedi'i ddatrys"*

Myfyrwyr blwyddyn 9

- Roedd y staff yn canfod fod timau staff cymorth yn helpu i gynyddu'r amser a'r arbenigedd sydd ar gael i fynd i'r afael â phroblemau lles, a gwrthbwysu'r pwysau amser ar staff addysgu.
- Fe wnaeth staff cymorth arbenigol a darparu manau pwrpasol ymroddedig i les, hwyluso ymatebion cyflym i broblemau lles, a chyfleu i'r myfyrwyr bod yr ysgol yn poeni amdanynt.

### Rôl unigryw staff cymorth

- Roedd statws staff cymorth fel rhywbeth arall ar wahân i athro ystafell dosbarth, yn cael ei ystyried yn bwysig ar gyfer lles myfyrwyr, yn enwedig mewn ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd.
- Yma, roedd gan staff cymorth fwy o allu i dreulio amser gyda myfyrwyr unigol, deall eu cefndiroedd, a meithrin ymddiriedaeth a pherthynas.
- Enghraifft o hyd oedd nyrs ysgol amser llawn mewn un ysgol, a ystyriwyd gan fyfyrwyr a rhieni yn ffynhonnell allweddol o arbenigedd, yn gymorth

## Materion i'w hystyried

Tynnwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau, o amrywiaeth o gyd-destunau ysgol, at ei gilydd yn yr astudiaeth hon.

Efallai nad yw myfyrwyr yn ymwybodol o effaith ethos ysgol cadarnhaol ar eu lles, os yw'r ethos yn atal problemau lles rhag codi.

Oherwydd anawsterau recriwtio rhieni i gymryd rhan yn yr astudiaeth, roedd y rhan fwyaf o'r rhieni a gymerodd ran hefyd yn aelod o staff yr ysgol, ac felly, roedd ganddynt fwy o ddealltwriaeth am swyddogaeth yr ysgol.

### Beth mae hyn yn ei olygu i'm hysgol i?

- Gall myfyrwyr ganfod ei bod hi'n hawdd mynd at staff cymorth ac addysgu, ond mae'n bwysig bod ganddynt ddewis o ran pwy i fynd ato/ati ynghylch eu problemau lles.
- Felly, caiff integreiddio lles mewn ysgolion uwchradd ei hwyluso gan strwythurau staff sy'n cynnwys staff cymorth. Trwy weithio ochr yn ochr â staff addysgu, mae staff cymorth yn rhoi'r amser a'r lle sydd ei angen i fynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, a meithrin ymddiriedaeth a pherthynas â'r myfyrwyr a rhieni.
- Gall darparu manau lles yn yr ysgol godi ymwybyddiaeth myfyrwyr, a chynorthwyo'r defnydd o strwythurau cymorth bugeiliol a chyfleu ymdeimlad bod yr ysgol yn poeni amdanynt.

Darllenwch y papur ymchwil yn llawn. Lawrlwythwch am ddim yma:

<https://tandfonline.com/doi/full/10.1080/02643944.2018.1528624>

Littlecott H.J. et al (2018) Student health and well-being in secondary schools: the role of school support staff alongside teaching staff. *Pastoral Care in Education* 36(4): 297-312